



ECAD6006C

Dydd Mawrth 23ain o Ionawr 2018

eleri.jenkins@pcyddds.ac.uk





HEDDIW...

- Dychwelyd y dasg ddealltwriaeth.
- Trafod gwallau cyffredin.
- Geiriau tebyg sy'n achosi dryswch.
- Gweithgareddau a gemau i ymarfer y gwallau cyffredin.



ADBORTH CYFFREDINOL

- Pawb wedi dangos dealltwriaeth o'r testun.
- Rhai wedi camddeall cwestiynau. Er enghraifft: **disgrifiwch** yr amgylchiadau byw. **Beth** oedd canlyniad y Refferendwm?
- Atebion cryno gan nifer fawr- ond hoffwn i chi ysgrifennu mewn brawddegau llawn. Mae modd gwneud hynny'n gryno.
- Gwiriwch eich gwaith gyda Cysill. Defnyddiwch eiriadur i wirio geirfa Er enghraifft: nifer wedi cam-glywed rhai geiriau: cyntefig, ymprydio, corsydd ayyb.
- Sillafu: chwyldro, dur, glowyr, pobl

RHIFAU

Ugain	1×20	20
Deugain	2×20	40
Trigain	3×20	60
Deg a thrigain	$10 + (3 \times 20)$	70
Pedwar ugain	4×20	80
Deg a phedwar ugain	$10 + (4 \times 20)$	90



BLYNEDD

Un flynedd
Dwy flynedd
Tair blynedd
Pedair blynedd
Pum mlynedd
Chwe blynedd
Saith mlynedd
Wyth mlynedd
Naw mlynedd
Deng mlynedd



Mae blynedd yn
enw unigol
benywaidd sy'n
dilyn rhifolion,



BLYNEDD

Un flynedd
Dwy flynedd
Tair blynedd
Pedair blynedd
Pum mlynedd
Chwe blynedd
Saith mlynedd
Wyth mlynedd
Naw mlynedd
Deng mlynedd



fish
fingers
baked
beans
mmmm
bwyd
mmm
mmm
mmm
mmm....

[illegible]



Geiriau tebyg

Mae'n hawdd iawn drysu rhwng geiriau sy'n swnio yr un peth neu'n debyg iawn. Ond, mae'n **bwysig iawn** ein bod yn defnyddio'r sillafiad cywir.

ee. Poblogaidd / poblogaeth
gwyrdd / gwyrth
melyn / melin

Geiriau tebyg

Geiriau Tebyg

a â _____
ael ail _____
aer aur _____
ar a'r _____
bal bac _____
can cân _____
car câr _____
clai clau _____
gwaeth gwaith _____
hud hyd _____
hyn hyn hun _____
lau lau _____
lir l'r _____
l'w yw _____
Llan llus llyn _____
llw llyw _____
mae'r mae'r _____
melyn melin _____
mar mâr _____
mil mui _____
os oes _____
poblogaidd pobllogaeth _____
tai tâl _____
tas tân _____
ti tu tŷ _____
gwario treulia _____
hwyfus hwylog _____
Allwch chi feddwl am hwy o enghreifftiau?

Edrychwch ar y
rhestr o eiriau tebyg.
Ceisiwch
benderfynu beth yw
eu hystyr heb
edrych mewn
geiriadur!

GEIRIAU TEBYG

- a â
- ael ail
- aer aur
- ar a'r
- bai bae
- can cân
- car câr
- clai clau
- gwaeth gwaith
- hud hyd
- hyn hŷn hun
- lau iau
- ir i'r
- i'w yw
- Llun llun llyn
- lliw llyw
- mae'r maer
- melyn melin
- mor môr
- mil mul
- os oes
- poblogaidd poblogaeth
- tal tâl
- tan tân
- ti tu tŷ



BERFAU CRYNO

Er mwyn codi safon a naws ein gwaith ysgrifennu, mae'n llawer gwell defynddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.

Er enghraifft:

Gwnaeth Huw Edwards a'i deulu symud o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd gwnaeth tad Huw gael swydd yn yr ardal.

BERFAU CRYNO

Er mwyn codi safon a naws ein gwaith ysgrifennu, mae'n llawer gwell defynddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.

Er enghraifft:

Gwnaeth Huw Edwards a'i deulu symud o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd *gwnaeth* tad Huw gael swydd yn yr ardal.

BERFAU CRYNO

Mae'n llawer gwell defnyddio berfau cryno!

Gwnaeth Huw Edwards a'i deulu symud o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd gwnaeth tad Huw gael swydd yn yr ardal.

***Symudodd** Huw Edwards a'i deulu o gefn gwlad Ceredigion i Gymoedd Bro Morgannwg oherwydd **cafodd** tad Huw swydd yn yr ardal.*

GWNEUD

Dyma sut i redeg y ferf 'gwneud' yn gywir yn y gorffennol.

Cwestiwn	Cadarnhaol	Negyddol
Wnes i?	Gwnes i	Wnes i ddim / Ni wnes i
Wnes di?	Gwnest ti	Wnest ti ddim / Ni wnest ti
Wnaeth e?	Gwnaeth e	Wnaeth e ddim / Ni wnaeth e
Wnaeth hi?	Gwnaeth hi	Wnaeth hi ddim / Ni wnaeth hi
Wnaethon ni?	Gwnaethon ni	Wnaethon ni ddim / Ni wnaethon ni
Wnaethoch chi?	Gwnaethoch chi	Wnaethoch chi ddim / Ni wnaethoch chi
Wnaethon nhw?	Gwnaethon nhw	Wnaethon nhw ddim / Ni wnaethon nhw

Tasg i ymarfer berfau cryno

Ail ysgrifennwch y paragraff gan ddefnyddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.

Enw: _____

Ail ysgrifennwch y paragraff isod gan ddefnyddio berfau cryno yn hytrach na berfau cwmpasog.

Gwnaeth y disgyblion ysgrifennu dyddiadur yn y wers. Gwnaeth llawer deimlo fod y dasg yn anodd ac oherwydd hynny gwnaeth llawer ddim gorffen. Roedd y bechgyn yn siaradus iawn yn ystod y wers a gwnaethon nhw ddim gorffen y dasg. Ar y llaw arall, roedd y merched yn gydwybodol iawn a gwnaethon nhw weithio'n dda iawn yn y wers. Gwnes i osod gwaith cartref ar gyfer yr wythnos nesaf. Mae'r gwaith cartref yn seiliedig ar y gwaith a wnaeth y disgyblion yn ystod y tymor.

Tasg i ymarfer berfau cryno

Gwnaeth y disgyblion **ysgrifennu** dyddiadur yn y wers. Gwnaeth llawer **deimlo** fod y dasg yn anodd ac oherwydd hynny gwnaeth llawer ddim **gorffen**. Roedd y bechgyn yn siaradus iawn yn ystod y wers a gwnaethon nhw ddim **gorffen** y dasg. Ar y llaw arall, roedd y merched yn gydwybodol iawn a gwnaethon nhw **weithio'n** dda iawn yn y wers. Gwnes i **osod** gwaith cartref ar gyfer yr wythnos nesaf. Mae'r gwaith cartref yn seiliedig ar y gwaith a wnaeth y disgyblion yn ystod y tymor.



Geiriau bach...
effaith fawr ar gywirdeb!!

Â/AG

- â/ag = with/by means of (gyda)
- Â = Treiglâd Llaes TCP
- Mynd â chylllell i'r gegin
- Ag – dim treiglâd
- Mynd ag afal yn fy llaw
- Dod ag offer i'r wers




$$A/AC = \text{AND}$$

- A = cyn cytsain (yn achosi treigladau llaes)
- Ci a chath
- Mab a thad

- Ac – cyn llafariad
- Afal ac oren
- Prifysgol ac ysgol



A = RHAGENW PERTHYNOL

- A = that/which/who
- Treigladd meddal!
- Dyma'r ferch a welais ddoe
- Dyma'r disgybl a oedd yn ddrwg
- Doedd dim o'r hyn a ddywedodd yn wir
- Hepgor yr 'a' – cadw'r treigladd!



NA / NAC = NEGYDDOL

- Na+ cytsain (treigladd llawer)
- Doedd dim merch na bachgen yn bresennol
- Nac + llafariad
- Welais i ddim afal nac oren (neither/nor)
- Gorchymyn: Na phoener!!



NA/NAG = THAN

- Na + cystain (treigladd laes)
- Nag + llafariad
- Mae gwaed yn dwymach na dŵr.
- Mae gwynt yn oerach na thân.
- Mae afal yn fwy blasus nag oren.



NID / NAD

NAD = *That* + negyddol

NID = negyddol yn unig

NAD wyf = *that I'm not*

Nid wyf = I am not

ee. Dywedodd hi wrtho ti **nad wyf** yn credu hynny
Nid wyf yn dymuno sefyll yr arholiad.

NAD WYT TI'N = **that** you are **not**/ that you aren't

ee. Dywedodd Sara **nad wyt ti'n** mynd.

TASG YSGRIFENNU

Ch. Ysgrifennu						
i. Strwythur y gwaith a dealltwriaeth o hanfodion y ffurf ysgrifennu	Strwythur gwan ac arddull ysgrifennu aneglur. Dim dealltwriaeth o hanfodion y ffurf ysgrifennu	Strwythur ac arddull ysgrifennu boddhaol. Yn dangos peth dealltwriaeth o hanfodion y ffurf ysgrifennu	Strwythur da gydag arddull ysgrifennu clir. Yn dangos dealltwriaeth o hanfodion y ffurf yn gyffredinol	Strwythur da iawn sy'n cynnal y darlennydd. Dealltwriaeth glir o hanfodion y ffurf yn y rhan fwyaf o'r gwaith	Strwythur ac arddull ysgrifennu ardderchog sy'n ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd. Dealltwriaeth gadarn o hanfodion y ffurf	Strwythur ac arddull ysgrifennu aeddfed a rhagorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd. Dealltwriaeth gadarn o hanfodion y ffurf
ii. Cywirdeb iaith, gan gynnwys e.e. * sillafu ac atalnodi * elfennau gramadegol eraill perthnasol i'r lefel cyrhaeddiad ieithyddol * defnydd o'r cywair addas	<u>Braidd</u> dim brawddegau na chystrawennau cywir a'r <u>geirfa'n</u> wan	Rhai brawddegau a chystrawennau yn gywir gan ddefnyddio geirfa foddhaol	Brawddegau a chystrawennau'n gywir yn gyffredinol gan ddefnyddio geirfa addas	Brawddegau a chystrawennau'n gywir gan fwyaf, geirfa dda iawn	Brawddegau ymestynnol a chystrawennau'n hollol gywir, geirfa gyfoethog	Brawddegau ymestynnol a chystrawennau'n hollol gywir, geirfa gyfoethog ac <u>idiomatig</u>

Cael ei drosi'n farc allan o 30 ar gyfer y portffolio terfynol.



Y TRO NESAF- 13 / 02 /18

- Dychwelyd y dasg ysgrifennu.
- Dr Hanna Hopwood Griffiths yn eich dysgu.
- Arholiad TSI y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.